COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 11eg o IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Bedwyr Gwilym

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Erwyn Jones, Annwen Daniels, Mel Goch ap Meirion, Will G. Roberts, Mark Thomas, Mari Rees, Ronwen D Roberts, Glyn Daniels ac Elin Roberts.

10070/01/18 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Rory Francis

10071/01/18 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Erwyn Jones	**10079/01/18**	**Caffi'r Parc**
Cynghorydd Mark Thomas	**10079/01/18**	**Caffi'r Parc**
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion	**10077/01/18**	**Cais Cynllunio NP5/59/421A**
Cynghorydd Will G Roberts	**10077/01/18**	**Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Will G Roberts	**10075/01/18**	**Cyfrifon i'w talu**
Cynghorydd Annwen Daniels	**10077/01/18**	**Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Ronwen D Roberts	**10076/01/18**	**Cais Ariannol Ffermwyr Ifanc**

10072/01/18 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cafwyd gwybodaeth brys bod pryder mawr yn yr ardal parthed yr amseroedd bws newydd

PENDERFYNIAD: I drafod hyn ym Mhwyllgor Mwynderau nos Iau 18fed o Ionawr yn y Siambr am 7.00 o'r gloch

10073/01/18 MATERION YR HEDDLU

Ni fu aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10074/01/18 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 14eg RHAGFYR 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Annwen Daniels yn eilio

10075/01/18 CYFRIFON I'W TALU

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Will G Roberts **John Roberts (Ffestiniog) Ltd**

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	98.88	Rhif Siec.	002529
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002530
SLCC (Aelodaeth)	£	177.00	Rhif Siec.	002531
John Roberts (Ffestiniog) Ltd (Clirio eira)	£	1102.25	Rhif Siec.	002532
J P Farrington (Garddio)	£	140.00	Rhif Siec.	002533
Viking Direct (Defnydd Swyddfa)	£	110.87	Rhif Siec.	002534
John Roberts (Archwiliwr mewnol)	£	120.00	Rhif Siec.	002535
Arian Parod	£	60.00	Rhif Siec.	002540
BT (Ffôn)	£	34.68	Debyd Uniongyrchol	
BT (band eang)	£	42.48	Debyd Uniongyrchol	
Total Gas & Power (Trydan pafiliwn)	£	220.12	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

10076/01/18 CEISIADAU ARIANNOL

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Ronwen D Roberts **Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd**

Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd	£	25.00
Clwb Nofio PBP	£	150.00

10077/01/18 CEISIADAU CYNLLUNIO

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Will G Roberts **Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Annwen Daniels **Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion **Cais Cynllunio NP5/59/421A**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C17/1195/03/LL
   Ymgeisydd: Tanya Eke
   2-3 Sgwâr y Farchnad
   Blaenau Ffestiniog
   Codi estyniad i greu uned wyliau hunan cynhaliol newydd, ynghyd a throsi'r adeilad presennol i 3 uned wyliau hunan cynhaliol
   Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C17/1192/03/LL
   Ymgeisydd: Co-operative Food
   Co-op
   Blaenau Ffestiniog
   Gosod ac amnewid unedau oeri allanol i gefn y safle ynghyd a gwaith peintio'r adeilad
   Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif C17/1191/03/LL
Ymgeisydd: Mr L Hughes
Gwaith Setts
Manod
Blaenau Ffestiniog
Codi tŷ deulawr newydd ar gyfer angen lleol ar safle eithrio (cais diwygiedig i gais blaenorol a wrthodwyd o dan gyfeirnod C17/0323/03/LL)
Dim Gwrthwynebiad

4. Cais Cynllunio Rhif C17/1196/03/LL
Ymgeisydd: Mr Wil Gritten
Tir yn Cwmbowydd
Blaenau Ffestiniog
Gosod cabanau pren a chreu 'boardwalk' a gosod system trin carthffosiaeth a phlannu coed cysylltiol
Dim Gwrthwynebiad ond cynigir sylwadau bod y cynllun yn groes i Bolisi Cynllunio Cymru:
Paragraff 5.2.9
"Mae coetiroedd hynafol a lled-naturiol yn gynefinoedd na ellir eu hadfer. Maent yn werthfawr iawn am eu bioamrywiaeth, a dylid eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n achosi difrod sylweddol."

5. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/131E
Ymgeisydd: Rhys Williams
Cyn Depo Cyngor Gwynedd
Ffestiniog
Dymchwel cyn depo'r Cyngor a chodi 3 tŷ 2/3 llawr meddiannaeth fforddiadwy leol
Dim Gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/421A
Ymgeisydd: Selwyn Williams
Graig Wen
Ffestiniog
Estyniadau a newidiadau
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0182/03/LL
Ymgeisydd: Mr & Mrs J T Jones
Tŷ'n y Coed
Rhiwbryfdir
Blaenau Ffestiniog
Cais ôl gweithredol i newid defnydd tir ar gyfer creu safle carafanau teithiol ac estynnu adeilad presennol i greu toiledau a chodi adeilad ar gyfer gwaredu gwastraff
Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0982/03/LL
Ymgeisydd J W Greaves
Chwarel Llechwedd
Blaenau Ffestiniog
Darparu 6 uned 'glamping' o fath saffari ynghyd a datblygiad atodol gan gynnwys gwaith peirianyddol
Caniatáu

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0833/03/CR
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasiad i dŷ annedd yn cynnwys dymchwel porth blaen a chodi estyniad newydd, trosi'r stabl ynghlwm i ffurfio rhan o'r tŷ ac ail agor ac amnewid ffenestri
Caniatáu

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0834/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasiad i dŷ annedd yn cynnwys dymchwel porth blaen a chodi estyniad newydd, trosi'r stabl ynghlwm i ffurfio rhan o'r tŷ ac ail agor ac amnewid ffenestri
Caniatáu

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0781/03/CR
Ymgeisydd Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Trosi adeiladau allanol yn uned gwyliau
Caniatáu

6. Cais Cynllunio Rhif C17/0786/03/LL
Ymgeisydd: Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasu adeilad allanol yn uned gwyliau
Caniatáu

7. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/791
Ymgeisydd: Edward Parry
Talarfor
Ffordd Heulog
Ffestiniog
Adeiladu garej yn lle'r adeilad allanol presennol
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod

10078/01/18 PWYLLGORAU
Ethol cynghorydd i eistedd ar Bwyllgorau'r Cyngor Tref

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Mari Rees i eistedd ar holl Bwyllgorau'r Cyngor Tref.

10079/01/18 PWYLLGOR MWYNDERAU
DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Erwyn Jones Caffi'r Parc
Cynghorydd Mark Thomas Caffi'r Parc

Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 4ydd Ionawr 2018

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 4ydd IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Ronwen D Roberts
Will G Roberts
Glyn Daniels
Elin Roberts
Mark Thomas

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym

DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Erwyn Jones – Caffi'r Parc, gadawodd yr ystafell
Cynghorydd Mark Thomas – Caffi'r Parc, gadawodd yr ystafell

1. Toiledau Diffwys
Trafod ystyried i'r Cyngor Tref eu rhedeg os bydd costau mwyaf diweddar i law.
Argymhelliad: Ni chafwyd y costau mwyaf diweddar felly ei ohirio nes byddent i law.

2. Maes Parcio Diffwys
Trafod ystyried os yw'r Cyngor Tref yn dymuno bod yn rhan o gynllun partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd sef Cynllun Parcio 10%
Gallai maes parcio Diffwys a 'Stesion' fod yn rhan o gynllun ble mae'n bosib i gynghorau cymuned dderbyn 10% o incwm meysydd parcio dynodedig yn y gymuned. Golygai fod y 10% o'r ffi parcio bresennol yn cael eu hychwanegu, a bod Cyngor Gwynedd yn ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref.
e.e. cost parcio am 1 awr yn £1, byddai gost parcio newydd yn £1.10 am awr, a bydd y 10c yn mynd i'r cyngor tref
Er mwyn rhoi syniad i chi faint gall y Cyngor Tref dderbyn, mae'r ffigyrau incwm ar gyfer 2016 – 2017 fel a ganlyn:
Diffwys - £16,995.62
Stesion - £14,601.48
Cyfanswm £31.597.10
Felly byddai 10% yn oddeutu £3,159.71 y flwyddyn

Argymhelliad: Cytunwyd i fod yn rhan o'r cynllun hwn gyda'r arian i'w ddefnyddio tuag at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus yn Diffwys pan fydd cytundeb rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd.

3. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae
Argymell: I dderbyn yr adroddiadau

4. **Tir Tan y Manod:**
Trafod cais i'r Cyngor Tref gymryd perchnogaeth o ddarn o dir yn Tan y Manod gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd
Argymhelliad: I beidio symud ymlaen a chymryd perchnogaeth o'r tir yma.

5. **Cae Manod**
Trafod offer newydd
Argymhelliad: Ni chafwyd gwybodaeth ynglŷn â chostau offer newydd felly ei ohirio nes byddent i law.

6. **Praesept 2018-2019**
Cychwyn trafodaeth ynglŷn â dyrannu cyllideb ar gyfer praesept 2018-2019
Argymhelliad: I ddyrannu cyllideb fel yr isod ac i holi Rheilffordd Ffestiniog ynglŷn â chostau twtio'r trên bach a holi Blachere Illumination ynglyn a phris taflunydd i'r pistyll yn Diffwys -

	Praesept 2017-2018		Praesept 2018-2019	
Llwybrau				
Cerddwr Llwybrau	£ 820.00		£ 820.00	
Cynnal a Chadw Llwybrau	£ 4,500.00		£ 5,500.00	
Cyfanswm Llwybrau		**£ 5,320.00**		**£ 6,320.00**
Nadolig				
Goleuadau Nadolig	£ 15,850.00		£ 15,850.00	
Coed Nadolig	£ 350.00		£ 450.00	
Hysbyseb Nadolig	£ 50.00		£ 50.00	
Gŵyl Nadolig	£ 10,000.00		£ 10,000.00	
Cyfanswm Nadolig		**£26,250.00**		**£ 26,350.00**
Mwynderau				
Garddio				
Planhigion a phlannu	£ 5,000.00		£ 5,000.00	
Gwelliannau Ffestiniog	£ 250.00		£ 250.00	
Gardd Encil			£ 600.00	
Gardd Coffa Ffestiniog			£ 1,500.00	
Ger Cerflun David Nash			£ 1,000.00	
Sgwâr Rawson			£ 600.00	

	Praesept 2017-2018		Praesept 2018-2019	
Bylbiau Cennin Pedr			£ 150.00	
Plannu Coed			£ 200.00	
Canol y Dref			£ 1,000.00	
Hyrwyddo	£ 3,000.00		£ 3,000.00	
Cyfanswm Garddio		**£ 8,250.00**		**£ 13,300.00**
Canol y Dref				
Pistyll	£ 1,000.00		£ 1,000.00	
Pistyll - taflunydd				
Trên Bach Diffwys	£ 100.00		£ 500.00	
Toiledau Diffwys	£ 4,000.00		£ 12,000.00	
Maes Parcio				
Cyfanswm Canol y Dref		**£ 5,100.00**		**£ 13,500.00**
Camerâu CC				
Camerâu CC				
Offer CCC	£ 1,500.00		£ 2,500.00	
Cyfanswm Camerâu CC		**£ 1,500.00**		**£ 2,500.00**
Cof Golofnau	£ 500.00		£ 500.00	
Cyfanswm Cof Golofnau		**£ 500.00**		**£ 500.00**
Meinciau	£ 3,000.00		£ 3,000.00	
Cyfanswm Meinciau		**£ 3,000.00**		**£ 3,000.00**
Biniau Halen	£ 2,000.00		£ 2,000.00	
Cyfanswm Biniau Halen		**£ 2,000.00**		**£ 2,000.00**
Y Parc				
Y Parc - cynnal a chadw	£ 2,700.00		£ 3,500.00	
Y Parc - offer				
Pafiliwn y Parc				
Cynnal a chadw			£ 5,000.00	
Offer			£ 1,000.00	
Cyfanswm Y Parc		**£ 2,700.00**		**£ 9,500.00**
Caeau Chwarae				
Cynnal a chadw cyffredin	£ 900.00		£ 900.00	
Archwilio	£ 720.00		£ 720.00	
Torri gwair	£ 4,100.00		£ 5,000.00	
Gwagio biniau sbwriel	£ 6,000.00		£ 6,000.00	
cynnal a chadw offer	£ 15,000.00		£ 15,000.00	
Sgwâr Oakeley - rhent tir	£ 10.00		£ 10.00	

	Praesept 2017-2018		Praesept 2018-2019	
Sgwâr Oakeley - offer				
Cae Baltic - rhent tir	£ 1.00		£ 1.00	
Cae Baltic - offer				
Parc Sglefrio - rhent tir	£ 1.00		£ 1.00	
Parc Sglefrio - offer	£ 1,000.00		£ 1,000.00	
Cae Tanygrisiau - offer				
Cae Manod - offer	£ 8,000.00		£ 8,000.00	
Cae Gild - offer				
Cae Penbryn - offer				
Cae Bryn Coed - offer				
Penbryn, Baltic				
Cyfanswm Caeau Chwarae		**£35,732.00**		**£ 36,632.00**
Cyfanswm		**£90,352.00**		**£ 113,602.00**

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Glyn Daniels yn eilio, fodd bynnag, bydd yr argymhellion ddyrannu cyllideb yn cael eu trafod ymhellach mewn cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Tref i'w gynnal nos Iau, 25ain Ionawr yn y Siambr am 7.00

10080/01/18 PWYLLGOR ADNODDAU

Derbyn argymhellion Pwyllgor Adnoddau nos Fawrth 9fed Ionawr 2018

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR ADNODDAU
NOS FAWRTH 9fed IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Bedwyr Gwilym - Cadeirydd
Rory Francis
Erwyn Jones
Will G Roberts
Mark Thomas
Elin Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Glyn Daniels
Ronwen D Roberts

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Cyfrifon 2017 – 2018 i'r Dyddiad**
Argymhelliad: - Derbyniwyd i'r cyfrifon fod yn gywir

2. **Cyfarfod Anarferol o'r Cyngor Tref**
Trefnu dyddiad cyn diwedd Ionawr i gynnal Cyfarfod Anarferol i osod Praesept 2018/2019
Argymhelliad: - I gynnal Cyfarfod Anarferol i osod praesept 2018 – 2019 nos Iau 25ain o Ionawr 2018 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

3. **Cymeradwyo llythyr apwyntiad Archwilwyr Mewnol**
Argymhelliad: - Cymeradwywyd llythyr apwyntio Archwilio Mewnol

4. **Praesept 2018-2019**
Trafod argymhellion ar gyfer cyllideb Adnoddau i'r flwyddyn ariannol 2018 - 2019
Argymhelliad: - I ddyrannu cyllideb fel yr isod ac iddynt gael eu trafod ymhellach ynghyd ac argymhelliad cyllidol Pwyllgor Mwynderau yn y cyfarfod Anarferol nos Iau 25ain o Ionawr 2018.
Argymell neilltuo £10,000.00 yn flwyddyn am dair blynedd er mwyn cefnogi Clybiau Ieuenctid y fro.
Argymell neilltuo £5,000.00 ar gyfer costau prynu'r adeilad os bydd penderfyniad i wneud hyn yn cael ei wneud.
Argymell neilltuo£15,000.00 ar gyfer cyflogi os bydd y Cyngor yn prynu'r adeilad.

	Praesept 2017-2018	Praesept 2018-2019	
Clerc			
Cyflog y Clerc	£ 25,000.00	£25,000.00	
NI Cyflogwr	£ 2,100.00	£2,100.00	
Pensiwn cyfraniad y Cyngor	£ 5,500.00	£ 5,500.00	
Costau Teithio Clerc	£ 150.00	£150.00	
Aelodaeth SLCC	£ 200.00	£200.00	
Hyfforddiant	£ 150.00	£ 150.00	
	£ 33,100.00	**£33,100.00**	**£ 33,100.00**
Cyflogi			
		£15,000.00	
			£ 15,000.00
Cyffredin			
Adeilad			
Rhentu Swyddfa	£ 3,000.00	£3,000.00	
Trethi adeilad	£ 3,600.00	£3,600.00	
Yswiriant adeilad	£ 160.00	£160.00	
Glanhau'r swyddfa	£ 954.00	£954.00	
Prynu adeilad		£5,000.00	
Cynnal a chadw adeilad	£ 400.00	£2,000.00	
Swyddfa			
Defnydd Swyddfa	£ 2,000.00	£2,000.00	
Arian Parod	£ 600.00	£600.00	
Trwydded Scribe	£ 400.00	£400.00	
Cyfrifiadur	£ 400.00	£400.00	
Ffôn	£ 750.00	£750.00	

	Praesept 2017 - 2018	Praesept 2018-2019	
Eraill			
Cyfieithydd	£ 1,600.00	£1,600.00	
Pabi	£ 60.00	£60.00	
Baneri Cenedlaethol	£ 400.00	£400.00	
Cynnal y wefan	£ 500.00	£500.00	
Aelodaeth UnLlais Cymru	£ 800.00	£800.00	
	£ 15,624.00	**£22,224.00**	**£22,224.00**
Adran 137			
Cyfraniadau Cyffredinol	£1500.00	£2,000.00	
Ysgoloriaeth Patagonia	£1500.00	£2,000.00	
Gŵyl Cerdd Dant 2018	£2,000.00	£2,500.00	
Rygbi Bro Bach	£2,000.00	£2,000.00	
Clybiau Ieuenctid		£10,000.00	
Gŵyl Llechi		£750.00	
	£7,500.00	**£19,250.00**	**£19,250.00**
Aelodau			
Cadeirydd	£750.00	£750.00	
Costau Teithio Aelodau	£200.00	£ 200.00	
Etholiadau	£4,000.00	£4,000.00	
Hyfforddiant	£500.00	£500.00	
Gliniaduron	£5,000.00	£5,000.00	
Tâl i Gynghorwyr	£1,600.00	£1,600.00	
Lwfans Gofalwr	£500.00	£500.00	
	£12,550.00	**£12,550.00**	**£ 12,550.00**
Yswiriant, Archwilio ac Anarferol			
Yswiriant	£5,000.00	£5,000.00	
Archwilio cyfrifon	£600.00	£600.00	
Sefyllfa anarferol	£2,250.00	£2,250.00	
	£7,850.00	**£7,850.00**	**£7,850.00**
Cyfanswm	**£ 73,266.00**		**£ 109,974.00**

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio, fodd bynnag, bydd yr argymhellion ddyrannu cyllideb yn cael eu trafod ymhellach mewn cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Tref i'w gynnal nos Iau, 25ain Ionawr yn y Siambr am 7.00

10081/01/18 PWYLLGOR NADOLIG

Trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod i ddechrau paratoi at Nadolig 2018

PENDERFYNIAD: I gynnal y cyfarfod yng Nghaffi'r Llyn am 2.00pm ddydd Iau, Chwefror 1af, 2018 gyda'r Cynghorwyr Annwen Daniels, Ronwen D Roberts, Mari Rees a Chlerc y Dref yn aelodau etholedig i ddechrau trafodaethau gydag adroddiadau llawn i'w cyflwyno i'r Cyngor Tref.

FE AETH Y CYFARFOD YN GAEEDIG I'R CYHOEDD A'R WASG

10082/01/18 CAIS AM GYFETHOLIAD

Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960
Yn unol â Deddf Mynediad i Gyfarfodydd Cyrff Cyhoeddus - Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (1985) Atodlen 12A, rhannau 1.1 a 4.14, mae'r cyhoedd a'r wasg felly wedi'u heithrio o'r rhan hon o'r cyfarfod.

Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn llythyr cais am sedd wag ar y Cyngor Tref. Yn anffodus, nid yw rhai ymgeiswyr am seddi gwag ar y Cyngor Tref wedi bod yn fanwl iawn eu llythyr. Nid oes unrhyw esboniad eu rhesymau dros ddymuno bod yn Gynghorydd Tref nac unrhyw wybodaeth o'u cyfraniad i'r gymuned yn eu llythyr. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i'r Cyngor Tref wneud penderfyniad gan nad oes ganddynt fawr ddim gwybodaeth i'w helpu yn eu penderfyniad.

PENDERFYNIAD: Gan nad oedd digon o wybodaeth ynghylch yr ymgeisydd a gynhwyswyd yn y llythyr, i ofyn i'r person hwn fynychu cyfweliad byr ddydd Iau 25ain Ionawr am 6.00pm

AGORWYD Y CYFARFOD I'R CYHOEDD A'R WASG

10083/01/18 IECHYD

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10084/01/18 CAEAU CHWARAE

CAE BALTIC

Cafwyd gwybodaeth na fydd Ffrindiau Cae Baltic yn ceisio datblygu'r cae bellach. Yn sgil maes carafanau yn cael ei ganiatáu ar dir cyfagos mae'r Cyngor Tref yn gorfod gosod ffens diogelwch o amgylch y cae er mwyn sicrhau diogelwch plant wrth chwarae. Bu i Ffrindiau Cae Baltic gynnig yr arian sydd wedi ei gasglu ganddynt tuag at datblygu'r cae i'r Cyngor Tref tuag at y gôst o osod y ffens hon.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth parthed datblygu Cae Baltic ac i edrych ymlaen at dderbyn llythyr swyddogol yn cynnig yr arian tuag at y gôst o osod ffens o amgylch y cae er diogelwch plant yn chwarae.

10085/01/18 TIR YN PENBRYN, CAE BALTIC

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth newydd gan Gyngor Gwynedd parthed y datblygiad diweddar sydd i weld o fewn ffin y tir sydd wedi ei gynnig i'r Cyngor Tref. Ni ellir symud ymlaen gyda'r pryniant nes bydd Cyngor Gwynedd wedi diffinio'r terfyn yn bendant a phroblem y datblygiad diweddar wedi ei ddatrys.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10086/01/18 CYNGOR GWYNEDD
Rhaglen Waith Ionawr 2018

Llwybr Rhif 6	Clogwyn y Geifr	Camfa newydd
A496	Ffordd Gogledd Gorllewin	Newid Colofnau golau stryd

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10087/01/18 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorydd Glyn Daniels adrodd iddo fynychu cyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth parthed trafod creu cwmni lleol rhwng chwe ardal er mwyn prynnu Pwerdy Maentwrog er lles yr ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10088/01/18 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD
Ni chafwyd gwybodaeth

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10089/01/18 CLERKS AND COUNCILS DIRECT
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10090/01/18 THE CLERK
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ANARFEROL O'R CYNGOR TREF
NOS IAU 25ain IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 8fed CHWEFROR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 8fed CHWEFROR 2018
AR Y 1af CHWEFROR 2018